

CALCH LIMESTONE



Craig waddod yw calchfaen, sydd wedi'i gwneud o galsiwm carbonad (CaCO_3) yn bennaf. Fe'i ffurfiwyd yng ngwaelod y môr oddeutu 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o galchfaen mewn diwydiant, ac fel carreg adeiladu.



Limestone is a sedimentary rock mainly made up of calcium carbonate, CaCO_3 . It was formed at the bottom of a sea about 300 million years ago. Limestone has many uses in industry and as a building stone.

Pan fydd calchfaen yn cael ei gynhesu mewn olyn, mae'r calsiwm carbonad yn dadelfennu yn galsiwm ocsid a charbon deuocsid. Yr enw ar y math hwn o adwaith yw dadelfennu thermol. Gelwir y broses yn galchynnu. Unwaith y bydd calchfaen sydd wedi'i losgi yn troi'n galsiwm ocsid, fe'i gelwir yn galch brwd.



When limestone is heated in a kiln, the calcium carbonate breaks down into calcium oxide and carbon dioxide. This type of reaction is called thermal decomposition. The process is called calcining. Once burnt limestone turns into calcium oxide which is known as quicklime.

Mae calch brwd yn adweithio gyda dŵr i gynhyrchu calsiwm hydrocsid, sy'n cael ei alw'n galch tawdd hefyd. Defnyddir calch tawdd i leihau asidedd pridd, sy'n helpu i gynyddu ei ffrwythlondeb. Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohono fel deunydd adeiladu hefyd. Mae calch tawdd yn ail-amsugno carbon deuocsid o'r aer yn raddol ac yn troi'n galsiwm carbonad unwaith eto.



Quicklime reacts with water to produce calcium hydroxide, which is also called slaked lime. Slaked lime is used to reduce the acidity of soil, which helps increase its fertility. It also has many uses as a building material. Slaked lime gradually reabsorbs carbon dioxide from the air and turns back into calcium carbonate.

CALCHFAEN (Calsiwm carbonad)
LIMESTONE (Calcium carbonate)
 CaCO_3



CALCH BRWD (Calsiwm ocsid)
QUICKLIME (Calcium oxide)
 CaO
 CO_2 (Carbon deuocsid) yn cael ei golli
 CO_2 (Carbon dioxide) is lost



CALCH TAWDD (Calsiwm hydrocsid)
SLAKED LIME (Calcium hydroxide)
 Ca(OH)_2